# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: 29 Gorffennaf 2022

Amser: 10am

Lleoliad: Cyfarfod hybrid

Yn bresennol: Y Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, M Evans, L James, B Davies, G Horton.

Tracy Mckim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Mark Bleazard (Rheolwr Gwasanaethau Digidol), Dominic Gibbons (Rheolwr Prosiectau Digidol), Sam Ali (Rheolwr Prosiectau Digidol), Tariq Slaoui (Rheolwr Gwybodaeth).

Samantha Schanzer (Ymgynghorydd Craffu), Taylor Strange (Swyddog Llywodraethu), Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu), Anne Jenkins (Arweinydd Tîm Llywodraethu).

---

### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorwyr C Baker-Westhead a P Bright

### 2. Datganiadau o fuddiant

Dim.

### 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol: a gynhaliwyd 24 Mehefin 2022

Gofynnodd y Cynghorydd B Davies am i'w statws gael ei nodi fel ei fod yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2022 fel cofnod gwir a chywir.

### 4. Adroddiad Digidol Blynyddol 21-22

Gwahoddedigion:
Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid)
Mark Bleazard (Rheolwr Gwasanaethau Digidol)
Dominic Gibbons (Rheolwr Prosiectau Digidol)
Sam Ali (Rheolwr Prosiectau Digidol)
Tariq Slaoui (Rheolwr Gwybodaeth)

Rhoddodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid gyflwyniad byr i'r adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol grynodeb o'r pynciau a gynhwyswyd yn yr adroddiad.

Diolchodd y pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Digidol am drylwyredd yr adroddiad.

**Cwestiynau a sylwadau:**

Gofynnodd y pwyllgor ble roedd y ganolfan ddata wedi'i lleoli.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrtho mai Vantage yng Nghasnewydd oedd enw'r ganolfan ddata.

Gofynnodd y pwyllgor pa mor ddiogel oedd y ganolfan ddata.

- Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol sicrwydd i'r pwyllgor fod y darparwr wedi cynnal yr holl wiriadau diogelwch angenrheidiol, yn ddigidol ac yn gorfforol.

Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch blaenoriaeth newid hinsawdd yn yr adroddiad a pha ddulliau oedd yn cael eu defnyddio i weithio mewn ffordd sy'n ystyriol ohono.

- Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid wrth y pwyllgor, fod newid hinsawdd yn flaenoriaeth er ei fod ar waelod yr adroddiad. Tynnodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid sylw at rai camau sy'n cael eu cymryd yn unol â'r flaenoriaeth newid hinsawdd megis gwella effeithlonrwydd ynni a sicrhau nad yw'r newid i ddigideiddio yn ychwanegu at y mater. Nododd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y byddai adroddiad newid hinsawdd ar wahân.
- Ymddiheurodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol am y geiriad a ddefnyddiwyd wrth siarad am y flaenoriaeth newid hinsawdd.
- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor am rai dulliau a ddefnyddir i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd gan nodi bod y gofynion oeri mewn canolfan ddata fawr yn cael llai o effaith na chael nifer o ganolfannau llai o faint.

Gofynnodd y pwyllgor sut mae'r cyngor wedi cyfrifo arbedion carbon o gyfarfodydd rhithwir.

- Hysbysodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y pwyllgor fod yr adroddiad newid hinsawdd yn ymhelaethu ar hyn, ond roedd rhai mesurau'n cynnwys gwirio'r defnydd o wres mewn adeiladau ac ati.

Gofynnodd y pwyllgor sut yr oedd pŵer yn cael ei gynhyrchu yn y ganolfan ddata.

- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor nad oedd ganddo'r wybodaeth benodol honno bryd hynny ond rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor fod gan Vantage achrediadau yn ymwneud â hyn.

Nododd y pwyllgor ei fod wedi'i blesio gan y gwaith a'r cynnydd a wnaed gan y tîm Digidol a diolchodd iddynt am hynny.

Roedd y pwyllgor yn pryderu am amseroedd aros am alwadau, a chyda'r awgrym o ddefnyddio hunanwasanaeth yn ei le.

- Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol sicrwydd i'r pwyllgor fod y defnydd o'r cyfleuster hunanwasanaeth yno i wella ansawdd y gwasanaeth ac nid i gymryd lle cymorth galwadau. Amlygodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol bwysigrwydd cael y dewis i ddefnyddio hunanwasanaeth a chymorth galwadau yn dibynnu ar frys y mater. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor fod y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn bwriadu datblygu offer eraill megis ailosod cyfrinair hunanwasanaeth i helpu gyda materion cyffredin heb orfod cofnodi unrhyw alwadau.
- Sicrhaodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y pwyllgor y gellid codi hyn gyda'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir.

Gofynnodd y pwyllgor pa wiriadau oedd ar waith i sicrhau na fyddai data'n cael ei golli.

- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor mai cyfrifoldeb y cyngor yw cyfyngu ar golli data ond rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor fod safonau'n cael eu cynnal gan bob parti i gadw data'n ddiogel. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor fod y prosesau hyn yn cael eu hadolygu.

Gofynnodd y pwyllgor a oedd unrhyw ddata o'r rhai sy'n fodlon â'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i roi'r canrannau a roddwyd yn eu cyd-destun.

- Nid oedd gan y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y data wrth law ond nododd y sylw a sicrhaodd y pwyllgor y gellid ychwanegu hyn at adroddiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd y pwyllgor p'un a oedd rheswm dros yr amrywiad mewn canrannau boddhad cwsmeriaid o fis i fis.

- Ni allai'r Rheolwr Gwasanaethau Digidol roi rheswm penodol am yr amrywiad ond rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor fod y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn monitro hyn. Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor fod cyfarfodydd grŵp cyflawni misol yn cael eu cynnal i drafod perfformiad ond nid oedd y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi tynnu sylw at unrhyw faterion penodol a rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor y gellid gwneud mwy o waith dadansoddi.

Gofynnodd y pwyllgor pa heriau oedd yn bodoli o ran amseroedd ymateb galwadau y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir.

- Amlygodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol yr heriau cyffredinol ond teimlai y byddai'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn gallu rhoi ymateb yn well.
- Nododd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod galwadau a gafodd eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf yn arwain at amseroedd galwadau hwy.
- Gofynnodd y pwyllgor a oedd data ar gyfer y galwadau hynny a gafodd eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf.
- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor mai dim ond canrannau oedd wedi'u cynnwys ond y gellid ychwanegu data yn y dyfodol.

Gofynnodd y pwyllgor sut yr oedd yn hysbys bod yr amser ymateb i alwadau ar gyfartaledd yn gymaradwy â blynyddoedd blaenorol pan nad oedd data ar gael a pham na roddwyd cyfartaleddau ar gyfer pob system cyn eu cyfuno.

- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor y gallent roi cyfartaleddau ar gyfer pob system cyn cyfuno. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol ei fod wedi ceisio esbonio ei fod wedi bod yn her yn y gorffennol ond nad oedd ganddo'r data i'w gynnwys.

Teimlai'r pwyllgor y byddai map yn manylu ar y Wi-Fi sydd ar gael yng nghanol y ddinas o fudd er gwybodaeth.
Gofynnodd y pwyllgor sut y byddai RPA yn effeithio ar drigolion a staff.

- Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid wrth y pwyllgor fod RPA yn cael ei weithredu mewn ardaloedd lle nad oedd llawer o adnoddau, os o gwbl, yn hytrach na disodli'r adnoddau presennol. Roedd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn gobeithio y byddai'r awtomeiddio a roddwyd ar waith eisoes ac

awtomeiddio yn y dyfodol yn rhyddhau amser staff i ganolbwyntio ar waith sy'n canolbwyntio ar bobl.

Gofynnodd y pwyllgor sawl cwestiwn mewn perthynas â defnydd ehangach o Wi-Fi yn y ddinas.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor fod Wi-Fi ar gael ar draws canol y ddinas yn ogystal ag mewn 50 o adeiladau at ddefnydd y cyhoedd. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol nad oedd yn ymestyn i ardal Friar's Walk gan fod darpariaeth yno eisoes. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor fod trafodaethau wedi'u cynnal ar gyfer ehangu'r ystod Wi-Fi cyhoeddus ond ei fod yn ymwybodol o'r costau cysylltiedig. Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y bu cynnig yn y gorffennol i leihau'r ddarpariaeth Wi-Fi cyhoeddus ond bod hwnnw wedi'i wrthdroi.
- Mynegodd y pwyllgor bwysigrwydd cynhwysiant digidol i drigolion Casnewydd.

## 5. **Adroddiad Strategaeth Ddigidol 22-27**

Gwahoddedigion:
Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid)
Mark Bleazard (Rheolwr Gwasanaethau Digidol)
Dominic Gibbons (Rheolwr Prosiectau Digidol)
Sam Ali (Rheolwr Prosiectau Digidol)
Tariq Slaoui (Rheolwr Gwybodaeth)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol yr adroddiad a thynnu sylw at y ffaith bod y Strategaeth Ddigidol flaenorol wedi dod i ben yn 2020 ond oherwydd y pandemig, dim ond nawr y gellir ei chyflwyno i'r pwyllgor.

**Cwestiynau a sylwadau:**

Nododd y pwyllgor y gallai'r adroddiad blaenorol fod wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Teimlai'r pwyllgor y gallai fod yn fuddiol cynnwys amserlenni.

Nododd y pwyllgor mor bwysig yw sicrhau bod systemau digidol yn hawdd i'w defnyddio ac yn hygyrch.

Canmolodd y pwyllgor y nodau a'r amcanion.

Gofynnodd y pwyllgor faint o bobl y cysylltwyd â nhw pan gynhaliwyd arolygon a beth oedd yr adborth.

- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor eu bod wedi bod yn anelu at gael cydbwysedd gyda lefel y manylder a gynhwyswyd ar gyfer cyfarfodydd Craffu. Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y cafwyd adborth da o arolygon mewn fformatau lluosog, a brasamcanodd fod cannoedd o bobl wedi ymateb iddynt . Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor y gellid darparu crynodeb o'r ymatebion hyn er gwybodaeth.

Gofynnodd y pwyllgor pa mor uchel oedd llythrennedd digidol.

- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol y pwyllgor fod cwestiwn ar lythrennedd digidol wedi'i gynnwys yn yr arolwg. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor fod lefelau wedi gostwng ond cydnabu fod gwasanaethau digidol amgen yn flaenoriaeth. Amlygodd y Rheolwr

Gwasanaethau Digidol bwysigrwydd argaeledd hyfforddiant i wella sgiliau digidol i drigolion a staff.
- Cytunodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid â'r pwyllgor ynghylch pwysigrwydd parhau â gwasanaethau wyneb yn wyneb i drigolion.

Gofynnodd y pwyllgor p'un a oedd data ar gael sy'n ymwneud â'r rhai sy'n defnyddio ffurflen gais Cyngor Dinas Casnewydd o gymharu â'r wefan?

- Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid wrth y pwyllgor nad oedd ganddi'r wybodaeth wrth law ond rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor fod y ffocws ar ddatblygu'r ffordd fwyaf effeithlon o ddefnyddio'r gwasanaeth.

Gofynnodd y pwyllgor p'un a fyddai gwaith yn cael ei wneud i wella profiad y defnyddiwr o'r wefan.

- Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod y prosiect yn y camau cynllunio gyda'r nod o ystyried sut i wella effeithlonrwydd y wefan.

Gofynnodd y pwyllgor sut roedd y cyngor yn cefnogi'r gallu i gael mynediad at y taliad costau byw a ph'un a oedd gwaith yn cael ei wneud i liniaru costau i drigolion er mwyn sicrhau cynhwysiant digidol.

- Tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol sylw at y Wi-Fi cyhoeddus a'r cynllun benthyca llechen a rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor fod adolygiad parhaus yn cael ei gynnal ar sut i wella.

Gofynnodd y pwyllgor a allai defnyddio llecynnau Wi-Fi arwain at leihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Nododd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y dyhead o gael hybiau Wi-Fi ond tynnodd sylw at y ffaith bod busnesau wedi gofyn yn flaenorol hefyd i ddiffodd Wi-Fi oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Tynnodd y pwyllgor sylw at bwysigrwydd bod yn ystyriol o gynnwys trigolion hŷn nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg na'r sgiliau i'w defnyddio.

- Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod y thema sgiliau a chynhwysiant yn ceisio mynd i'r afael â hyn ond cytunodd mor bwysig oedd sicrhau mynediad amgen a chymorth lle bo angen.

Llongyfarchodd y pwyllgor y swyddogion ar eu dyheadau ond nododd fod gwaith i'w wneud o hyd.

Gofynnodd y pwyllgor p'un a oedd data'n cael ei rannu a gyda phwy.

- Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol wrth y pwyllgor y byddai hyn yn cael ei drafod yn llawnach yn yr Adroddiad Risg Gwybodaeth Blynyddol. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol nad oedd deddfwriaeth diogelu data yn golygu na ellid rhannu data o gwbl a thynnodd sylw at achosion megis lle'r oedd data amhersonol yn cael ei rannu neu lle mae dyletswydd gyfreithiol i rannu data megis diogelu. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol sicrwydd i'r pwyllgor mai dim ond gyda phartïon priodol y rhennir data.

Tynnodd y pwyllgor sylw at bwysigrwydd hygyrchedd gwasanaethau i drigolion.

Gofynnodd y pwyllgor am ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol a ph'un a oedd yn cael ei fonitro.

- Teimlai Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid fod hyn yn broblem ar gyfer cyfathrebu ond cadarnhaodd fod cyswllt ar gyfryngau cymdeithasol yn cael ei fonitro.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r strategaeth yn dod yn ôl i'r pwyllgor.

- Dywedodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid wrth y pwyllgor y byddai diweddariadau'n cael eu darparu i'r pwyllgor drwy'r Adroddiad Digidol Blynyddol cyn gynted ag y byddent wedi cytuno ar y strategaeth.

Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion am eu presenoldeb a gofynnodd iddynt adael y cyfarfod.

## 6. Casgliadau adroddiadau'r pwyllgor

Teimlai'r pwyllgor fod yr adroddiadau'n gynhwysfawr ac yn glir.

Cydnabu'r pwyllgor waith caled y swyddogion a'r cynnydd a'r trawsnewid a wnaed i'r Cyngor a dinas Casnewydd a'i thrigolion.

Tynnodd y pwyllgor sylw at bwysigrwydd sicrhau bod systemau digidol a diweddariadau yn hygyrch, yn syml ac yn hawdd i'w defnyddio.

Gofynnodd y pwyllgor am grynodeb o'r adborth o arolygon trigolion er gwybodaeth.

Argymhellodd y pwyllgor y dylid cynnwys diffiniad o ardal canol y ddinas a gwmpesir gan Wi-Fi cyhoeddus a nododd mor bwysig yw sicrhau Wi-Fi o ansawdd sy'n hygyrch.

Tynnodd y pwyllgor sylw at bwysigrwydd craffu ar bartneriaid a darparwyr gwasanaethau data.

Argymhellodd y pwyllgor y dylid cynnwys data penodol yn ogystal â chanrannau er mwyn rhoi gwybodaeth yn ei chyd-destun yn haws.

## 7. Adroddiadau'r Ymgynghorydd Craffu

Eglurodd yr Ymgynghorydd Craffu fod y Blaengynllun Gwaith yn dal i gael ei ddatblygu ond ar hyn o bryd yr adroddiadau nesaf i'w cyflwyno fyddai'r Cynllun Corfforaethol a'r Adroddiad Cydraddoldeb Strategol Blynyddol.

Mynegodd y pwyllgor bryder ynghylch agendâu aml-eitem.

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu y pryder ond eglurodd nad oedd modd ei osgoi oherwydd materion amserlennu.

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

9 Medi 2022 am 10am.